# YR ATODLEN

## PWERAU GORFODI

*Mynd i fangre*

5 (1) Rhaid i arolygydd sy'n arfer pŵer mynediad, os gofynnir iddo gan berson yn y fangre—

(a) dangos tystiolaeth o fanylion adnabod yr arolygydd, a

(b) amlinellu at ba ddiben yr arferir y pŵer.

(2) Pan fo arolygydd yn mynd i fangre o dan warant a ddyroddir o dan baragraff 3, rhaid i'r arolygydd hefyd—

(a) os gofynnir iddo gan berson yn y fangre, ddangos copi o'r warant, a

(b) os gofynnir iddo gan y meddiannydd neu berson yr ymddengys i'r arolygydd ei fod yn gyfrifol am y fangre, roi copi o'r warant i'r person hwnnw.

(3) Os nad yw'r meddiannydd na pherson yr ymddengys i'r arolygydd ei fod yn gyfrifol am y fangre yn bresennol—

(a) rhaid i'r arolygydd adael copi o'r warant mewn man amlwg yn y fangre, a

(b) wrth adael y fangre, rhaid i'r arolygydd ei gadael wedi ei diogelu rhag mynediad anawdurdodedig yr un mor effeithiol ag yr oedd pan aeth yr arolygydd iddi.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. para. 5 mewn grym ar 1.12.2020, gweler **a. 12**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) 2020, Paragraff 5.